# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 13.11.19 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Huw Davies (Cadeirydd), Ian Williams, Dylan Thomas, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Edwards, David Griffiths, John Griffiths, Louise Hughes (Cynghorydd Sirol), Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau:** Geraint Micah.

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 09.10.19 fel rhai cywir.
   **Cynnig** – Keith Carroll **Eilio** – Kevin Goodchild **Arwyddwyd** – Huw Davies.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (09.10.19):**
   a) **Sedd Wâg Achlysurol** – derbyn cadarnhad gan Swyddog Cofrestru Cyngor Gwynedd na dderbyniwyd cais am Etholiad, felly caiff y Cyngor Cymuned symud ymlaen i gyfethol aelod newydd. Rhybudd yn datgan bwriad y Cyngor i gyfethol, i gael ei arddangos yn gyhoeddus am 21 diwrnod.
   **(13.11.19 ➞ Llwyngwil, Rhoslefain, ag ar wefan y Cyngor Cymuned).**
   b) **Cae Chwarae Llwyngwril** – matiau diogelwch du o dan yr offer yn y cae chwarae angen eu golchi ….
   G L Jones yn cynghori'r Cyngor Cymuned rhoi "pressure wash" i'r matiau diogelwch, a bydd gweithlu cwmni G L Jones wedyn yn trefnu trwsio/adnewyddu'r matiau diogelwch yn y gwanwyn, blwyddyn nesaf - 2020.
   **Penderfyniad** ➞ John Griffiths a Geraint Edwards wedi cynnig rhoi "pressure wash" i'r matiau diogelwch.
   c) **Cerrig Filltir Hanesyddol** - ar ochr y ffordd rhwng Rhoslefain a Llwyngwril angen sylw ….
   Cadarnhad gan Gyngor Gwynedd fod y gwaith yma ar raglen waith y gweithlu yn y misoedd nesaf.
   d) **Rhwystrau Diogelwch ger Friog** – diweddariad wedi ei dderbyn gan Network Rail ynglyn a'r gwaith arfaethedig ar y ffordd rhwng Llwyngwril a Friog, ond NWR ddim yn gallu cadarnhau pryd y byddent yn cychwyn y gwaith.
   **Penderfyniad** ➞ cysylltu â Network Rail eto i gwyno nad ydynt wedi dechrau'r gwaith a bod yr oedi yn annerbyniol, gan fod y rhwystrau diogelwch yn dirywio yn gyflym.

5. **Gohebiaeth:**
   a) **Marie Curie** – derbyn llythyr ganddynt yn diolch am y rhodd gan y Cyngor Cymuned.
   b) **Dawns i Bawb** - cais am gyfraniad ariannol ➞ penderfynu peidio cefnogi'r cais yma.
   c) **"Spotlight Awards" -** gwybodaeth i gael ei arddangos ar yr hysbysfwrdd.
   d) **"Diffyg llefydd parcio yn Llwyngwril"** - llythyr wedi ei dderbyn gan aelod o'r gymuned yn cwyno nad oes digon o lefydd parcio yn y pentref
   **Penderfyniad** ➞ cysylltu â Chyngor Gwynedd eto ynglŷn â'r mater yma.

   e) **Deddf yr Amgylchedd Cymru 2016 -** Fel rhan o'r broses o gydymffurfio, mae rhaid i Gynghorau Cymuned gofnodi beth maent wedi gwneud i gynnal a gwella bioamrywiaeth. Rhaid cyhoeddi'r wybodaeth yma cyn diwedd y flwyddyn (2019).
   **Penderfyniad** ➞ gwneud cofnod syml o'r camau sy'n cael eu gweithredu ar hyn o bryd gan y Cyngor Cymuned. Aelodau i adolygu'r wybodaeth yn eu cyfarfod nesaf, cyn i'w gyhoeddi.

   f) **Parc Carafanau Sunbeach** – gordyfiant coed o dir Sunbeach i'r ffordd fawr – A493.
   Ateb wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd yn nodi sylwadau'r Cyngor Cymuned. Swyddogion Cyngor Gwynedd ddim yn gweld fod y coed yma yn berygl, gan nad ydynt yn rhwystro llif y traffig ar hyd y ffordd fawr.

**Penderfyniad** ➞ cysylltu â'r Parc Cenedlaethol Eryri i ofyn am eu sylwadau gan mae nhw a ofynnodd i'r coed yma gael eu plannu wrth y ffordd, er mwyn cuddio'r estyniadau i'r parc, yn ôl yn yr 80au.

**g)** **Coed wedi gordyfu ar lan yr afon ger Tŷ Nant, Llwyngwril -** llythyr wedi ei dderbyn gan berchennog Tŷ Nant, yn nodi eu pryder ynglŷn â phwy sydd yn gyfrifol am y coed sydd ochr allan i ffîn Tŷ Nant, ar ochr Ffordd yr Orsaf.
**Penderfyniad** ➞ Cysylltu â pherchennog Tŷ Nant i gadarnhau:-
1. Dim y Cyngor Cymuned sydd berchen y tir dan sylw.
2. Dim y Cyngor Cymuned sydd berchen y coed dan sylw, a dydi'r Cyngor Cymuned ddim mewn sefyllfa i gadarnhau pwy sydd berchen y coed yma.
3. Mae angen i berchennog Tŷ Nant godi'r mater yma gyda'r tirfeddianwyr cyfagos - sef Cyngor Gwynedd.

6. **Materion Cynllunio:**
- Dim ceisiadau cynllunio wedi eu derbyn gan Barc Cenedlaethol Eryri.
- E-bost ynglŷn â chais cynllunio **NP5/69/252B** - Gelliwen, Llwyngwril, wedi ei anfon i Swyddog Cynllunio Gyngor Gwynedd, gan berchennog Gelliwen, hefo copi i Gyngor Cymuned Llangelynnin (cc). Cynnwys yr e-bost wedi ei ddarllen i'r aelodau yn y cyfarfod.

7. **Adroddiad Ariannol**: Adolygiad Ariannol wedi ei wneud.
Derbyniwyd Adroddiad Mis Hydref 2019 yn gywir.
**Cynnig –** Ian Williams **Eilio –** David Griffiths **Arwyddwyd –** Huw Davies.

**a)** Siec 100760 – Cyflog a Chosta'r Clerc = £1,368.50.
**b)** Siec 100761 – Cyngor Gwynedd – Archwiliad Mewnol = £180.00.
**c)** Siec 100762 – Cyngor Gwynedd – Toiledau Cyhoeddus = £2,000.00.

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:**
- **Grŵp Amgylcheddol Llwyngwril** - Ian Williams wedi mynychu eu cyfarfod yn Pentre' Bach - 06.11.19. Adroddiad wedi ei dderbyn gan Ian.
- **Gwasanaeth Sul y Cofio, Llwyngwril -** Huw Davies a Kevin Goodchild wedi cynrychioli'r Cyngor Cymuned.

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Derbyn adroddiad Louise Hughes.

10. **Unrhyw Fater Arall:**
**a)** **Coed Nadolig (Rhoslefain a Llwyngwril) -** pawb yn gallu helpu rhoi'r coed i fyny Dydd Sadwrn 07.12.19.
**b)** **Tyrchod Daear yn y Cae Chwarae** – cael dau bris arall.
**c)** **Biniau Halen –** Kevin Goodchild yn cadarnhau fod y biniau halen wedi eu llenwi.

**Materion Cymunedol**
**a)** **Rhiw Gwastadgoed, Llwyngwril –** sianeli dwr ar ochr y ffordd ger Gwastadgoed angen sylw -
**b)** **Ffordd ger Rola, Llwyngwril -** sianeli concrete ar ochr y ffordd ger Rola angen sylw –
**Penderfyniad** ➞ cysylltu â Chyngor Gwynedd.

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher – 11.12.19 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd ………………………………………………………………………………………… Dyddiad ……………………………**